

Y LLINYN ARIAN

Cylchgrawn Capel Salem, Caernarfon. MAI 2016

Penblwydd
capel Salem



'Ni all neb osod Sylfaen arall yn
lle'r un sydd wedi ei gosod, ac
Iesu Grist yw honno' 1 Cor 3



'A hyn a fydd yn y dyddiau
olaf, medd Duw; tywylltaf
o'm Hysbryd ar bawb.
Actau 2

wythnos
**cymorth
cristnogol**

'Yn gymaint ag i chwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r
rhain.....I mi y gwnaethoch' Math 27.



Gair gan y Gweinidog



Gŵyr pawb fel mae ambell fis o'r flwyddyn yn brysurach na'i gilydd. Felly mae mis Mai pan feddylw'n am weithgarwch yr eglwys. Dyma'r mis y byddwn yn dathlu penblwydd achos Salem yn 154 oed. Does neb yn Salem heddiw yn cofio'r dechrau ond mae gan bawb ohonom ein hatgofion am weithgareddau wnaed yn eu hamser i ddathlu'r garreg filltir. Ar benblwydd yr achos eleni gwahoddir un o blant yr eglwys; Parchedig John Owain ab Ifor Jones, Ynys Bute, Yr Alban i arwain ein haddoliad. Gobeithio medrwn ddangos ddyfnder ein croeso iddo drwy wrando arno'n arwain ein gwasanaethau yn y bore am 10 a'r prawn am 4o'r gloch.

Ar 15ed o Fai byddwn yn dathlu Gŵyl y Pentecost neu enw arall arni yw'r Sulgwyn. Dyma'r ŵyl sy'n cofio'r Ysbryd Glân yn llenwi bywydau'r Cristnogion cynnar. Nid yw'n ŵyl i gofio am ddoe yn unig ond mae'n ŵyl i gofio am addewidion Duw heddiw.

Yn Mis Mai hefyd rhoddir sylw i waith Cymorth Cristnogol : 15-22Mai. Eleni mae C.C yn canolbwyntio ar sefyllfa pobl fel Morsheda a'i phlant sy'n byw ar ynys yng nghanol un o afonydd mawr Bangladesh. Mae bywyd yn anodd iawn iddi gan fod ganddi ofn parhaus y bydd yr afon yn gorlifo ac yn dinistrio ei bywyd. Byddwn yn casglu o ddrws i ddrws unwaith yn rhagor. Llynedd casglwyd dros £3000 i waith C. C.

Ar y 18ed o Fai cawn Neges Heddych ac Ewyllys da Cymru. Crewyd y neges eleni gan bobl ifanc o Ysgol Gyfun Maes Garmon, Yr Wyddgrug, wedi ei seilio ar thema dewis a chydwybod. Byddant yn perfformio'r neges yn Yr Wyddgrug ar fore Mercher, Mai 18fed, ac hefyd ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint 2016 ar brynawn Mercher, Mehefin 1af. 'Cychwynna'r neges gyda'r geiriau : 'Does 'na ddim cyfarwyddiadau gennym ni ar sut i adeiladu heddych, ond dyma beth rydym ni'n ei gredu yw'r sylfeini:

Heddych yw dangos parch.

Heddych yw teimlo'n ddiogel.

COLLI ANNWYLIAID

Cydymdeimlawn â

Mr Elwyn a Lallie Griffiths, Bod Eilian , Stryd Dionowrig ym marwolaeth chwaer yng nghyfraith i Lallie.

Teuluoedd eraill yn yr eglwys sydd wedi colli eu hanwyliaid.

CYFNOD YN YR YSBYTY neu mewn Cartref Gofal

Mrs Myfanwy Parry, Roma, Ffordd Bethel.

Mrs Edith Powell, Craig Ola, Styd y Faenol. Mrs Beryl Jones, Penrhyn, Y Grugan , Groeslon.

Meddyliwn am ein haelodau sydd MEWN CARTREFI PRESWYL

Bryn Seiont Newydd : Mrs Elsie Bennett a Mrs Ela Owen.

Gwynfa, Caernarfon: Mrs Gwyneth Roberts.

Plas Garnedd, Llanfairpwll: Mr T. Elwyn Griffiths, 15 Erw Wen, Caeathro.

Plas Pengwaith, Llanberis :Mrs Margaret Jones, 2 Cae Berllan.

LLONGYFARCHIADAU I

Mr Elwyn a Mrs Myfanwy Parry, Roma , Ffordd Bethel ar ddod yn hen Daid a Nain.

Mr Eric Jones, Cynfi, Ffordd Bethel ar ei benblwydd yn 91oed.

Bethan Parry Tŷ Capel Salem a Llion ar enedigaeth Elsi Mai ac i Mr Richard a Mrs Edwina Parry , Ty Capel ar ddod yn Daid a Nain unwaith eto.

CASGLIAD GWELLI-

ANNAU 2016


Gwneir Casgliad y Gwelliannau ar ben blwydd yr achos. Fel y gwyddoch mae landeri a ffensetri un ochr y capel angen sylw. Hysbyswyd yr eglwys llynedd i'r pwyllgor adeiladau dderbyn amcanbris am y

gwaith :£3450+TAW am scaffaldau a £3100+TAW am baentio . Cychwynnwyd yr apel gyda chasgliad y gwelliannau llynedd. Rydym tua hanner ffordd o gyrraedd y nod erbyn hyn. Oes modd drwy'r casgliad eleni ddod yn agosach eto at y nod. Gobeithio bydd pob aelod yn barod i gyfrannu tro yma tuag at yr Apel. Cesglir eich amlen yn oedfaon Sul 7 Mai, neu danfonwch eich amlen i swyddog eich dosbarth.



Cyngerdd Ewyllys Da
Theatr Seilo Nos Fercher, Mai 18fed
6:30
Ysgolion Sul y dref
Ysgol yr Hendre, Ysgol Maesincla,
Ysgol Syr Hugh Owen
Aran Urdd y Gelli
Cofi Clogs
Oedolion £3
Holl elw'r noson i Apêl Wythnos
Cymorth Cristnogol

CLWB DARLLEN
Nos Lun 9 Mai
Y llyfr a ddarllenir yn
ystod y mis yw **AFTER**
YOU gan Jo Jo Moyes.
Cynhelir y cyfarfod yn
Llety'r
Bugail
am
7.30y.h.
Croeso



CYFARFOD TRAFOD A
MYFYRDOD. (3ydd Nos Sul yn
y mis) Cychwynnir ar faes
newydd P'nawn Sul 15 Mai.
Maes dan sylw fydd Llythyr
cyntaf Pedr.

22 Mai : Oedfa Cymorth Cristnogol
yn Llanbeblig am 6 o'r gloch . (Dan
nawdd Cyngor Eglwysi , Caernar-
fon.

Oherwydd salwch nid yw ein
gofalwraig yn medru cario
allan eu
dyletswyddau felly ar
hyn o bryd mae
clanhau'r capel a'r
festri'n cael ei



wneud yn wirfoddol gan yr
aelodau. Os fedrwrch helpu
rhowch wybod i'r Gweinidog-
ion. Mae bylchau gwag mis
yma a mis nesaf.



Noson nesaf Y
GYMDEITHAS

10 Mehefin (Nos Wener)

'Noson Blasau'

Trefniadau'r noson yng
ngofal Wendy Ostler.

Nos Wener. :CLWB YR
IFANC: Oed Blwyddyn 6,7 a
8. Amser :6.30-7.30.
Ni chyfyngir y clwb i blant a
Ieuenctid Salem